**Eluned Morgan AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Minister for International Relations and the Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Awst 2020

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Gorffennaf. Rwyf wedi ymateb i'ch cwestiynau isod, a byddwn yn hapus i ymhelaethu ar yr atebion hyn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**<u>Trefniadau gwahanu rhwng y DU, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy</u>**

1. **Dywedodd y Memorandwm Esboniadol [ar gyfer y Cytundeb Gwahanu] i Lywodraeth y DU drafod y cytundeb hwn â'r gweinyddiaethau datganoledig a rhannu'r cytundeb drafft cyn y cytunwyd arno. A allwch gadarnhau bod hyn yn wir, ac amlinellu natur eich trafodaethau â Llywodraeth y DU, yn benodol mewn perthynas â'r meysydd a amlinellir uchod?**

   Rhannwyd y cytundeb drafft â swyddogion Llywodraeth Cymru yn union cyn iddo gael ei gyhoeddi, ond roedd hyn er mwyn gweld y manylion y cytunwyd arnynt ymlaen llaw yn hytrach na gwneud gwaith manwl ar y cyd ar y cytundeb a rhannu'r berchnogaeth. Ar bob cam mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn galw ar Lywodraeth y DU am broses o gydweithio a chydberchnogaeth ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r DU yn ymadael â'r UE a'n perthynas â'r UE yn y dyfodol. Nid yw Llywodraeth y DU wedi gweithio ar y sail honno, ac yn hyn o beth dylid ystyried cytundebau o'r fath fel penderfyniadau a wnaethpwyd gan Lywodraeth y DU yn unig.

2. **Yn ogystal â'r trefniadau a amlinellir yn y Cytundeb Gwahanu, bydd angen i'r DU drafod a gwneud cytundebau ychwanegol ar drefniadau rhwng y DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd/Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop cyn diwedd y cyfnod pontio. A allwch amlinellau unrhyw ran rydych wedi ei chwarae neu'n disgwyl ei chwarae yn y trafodaethau hyn?**

   Mae llywodraethau'r gwahanol wledydd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd/Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop wedi cytuno i gyflymu trafodaethau â'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

DU yn ystod yr haf, gyda'r nod o wneud set o gytundebau sy'n ymdrin ag ardaloedd masnach ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd masnach.

Bydd yr Adran Masnach Ryngwladol yn cydlynu'r agweddau masnachol ac economaidd ar y trafodaethau hyn, gan weithio gyda'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad – o ystyried ei chyfrifoldeb am gysylltiadau dwyochrog ehangach â phob gwlad, a chyda'r Tasglu ar Ewrop, i sicrhau cysondeb yn y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a'r UE. Oherwydd lefel yr integreiddio rhwng y DU a gwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd/Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop, rydym wedi cael ein hysbysu bod y DU yn ceisio cysondeb, cyn belled ag y bo modd, a bod trefniadau eisoes ar waith.

I sicrhau bod y gweinyddiaethau datganoledig yn cael y wybodaeth ddiweddaf am y datblygiadau, mae'r Adran Masnach Ryngwladol wedi rhannu egwyddorion trafodaethau lefel uchel y DU ac wedi cynnig rhoi diweddariadau rheolaidd ar lefel swyddogol a lefel weinidogol, gan alinio â mecanweithiau cyfathrebu ac ymgysylltu presennol. Rydym eto i weld a fydd y trefniadau hyn yn cael eu anrhydeddu yn rheolaidd.

Hyderaf fod yr atebion hyn yn rhoi diweddariad digonol.

Yn Gywir,

M. E. Morgan.

**Eluned Morgan AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language